CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
28 Awst 2018, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, D Morgan, D Roberts, A Wyn, D ap Rhobert, W Williams, A Williams, C McGregor, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Pritchard, C Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Morgan. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb, hefyd croeso yn ôl i Cyng Clive Mc Gregor a'r Clerc yn dilyn ei llawdriniaeth
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19.06.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng D Roberts yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais adeilad rhestredig i'r adran cynllunio
4.2	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mae'r adran priffyrdd wedi cytuno i osod arwydd ychwanegol a bydd y gwaith yn cael ei wneud yn yr wythnosau nesaf
4.3	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru.
4.4	**Cwynion am cyflwr Lôn Bodffordd - Lôn Llanerchymedd** - Darllenwyd llythyr gan Cyng D Pritchard ar cyflwr y lôn. Bydd y Clerc yn anfon y llythyr ymlaen at y Cyngor Sir
4.5	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.6	**Glaswellt Maes y Coed** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C135A Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl materion wedi'u gadw'n ol yn Tyddyn Melus, Llangefni - dim sylwadau
5.2	23C287B Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Llecyn Braf, Talwrn - dim sylwadau
5.3	23C301C Cais llawn ar gyfer trawsnewid adeilad allanol yn anecs ar gyfer llety gofalwyr yn Pen y Garreg, Talwrn - dim sylwadau
	Llofnod…….Cadeirydd 25.09.18

6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	**HSBC** - Darllenwyd llythyr gan y banc yn gofyn i'r Cyngor ail gwneud y MANDAD (i tynnu Cyng C McGregor) oherwydd bod y banc wedi cyhoeddi'r ffurflen anghywir. Cytunwyd i gadael y MANDAD fel mae'n sefyll oherwydd bod Cyng C McGregor wedi ymuno a'r Cyngor eto
6.2	**Unllais Cymru** - Cyfarfod Blynyddol - gwybodaeth yn unig
6.3	**Anglesey Computer Solutions** - darllenwyd llythyr gan y cwmni yn egluro y newidiadau bydd angen i gwneud y wefan i gydymffurfio â GDPR (côst £50). Cytunwyd i symud ymlaen
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol
7.1	Mole Man £175.00
7.2	G Hughes torri gwair £350.00
7.3	Cyngor Ynys Mon - lampiau Talwrn £3000.00
7.4	R Mills Daughter and Son - goleuadau traffig £198.00 18 + 19.06.18
7.5	R Mills Daughter and Son - goleuadau traffig £198.00 26.06.18
7.6	Maypole Manufacturing (Shelter Solutions) £9210.00
7.7	Eisteddfod Gadeiriol Talwrn £250.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Cyflwr lonydd - Dywedodd Cyng A Williams bod tyllau wedi cael eu llenwi wrth ymyl Tan y Felin. Bydd Cyng W Williams yn anfon lluniau o lonydd eraill i'r Clerc cael trafod gyda'r Cyngor Sir
8.2	Pwyllgor y Neuadd. Mae gan y Neuadd pwyllgor newydd - gwybodaeth yn unig
8.3	Gwair heb cael ei dorri yn y maes chwarae. Nid yw'r Cyngor Sir bellach yn torri'r gwair. Mae'r gwaith wedi cael ei wneud gan drigolion lleol
8.4	Mrs Olwen Parry, Talwrn - lloches bws. Trafodwyd cwyn gan Mrs Parry yn nodi bod y cyngor wedi gosod y lloches bws newydd (gyferbyn â Tai Newyddion) o flaen y giât i'w cae. Dywedodd y Clerc nad oedd y giât yn weladwy yn y gwrychoedd. Cadarnhaodd Mrs Parry nad yw'r giât wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd lawer, ond nid oedd yn hapus bod y lloches yn ei anwybyddu. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Mrs Parry i ymddiheuro a gofyn hefyd a yw'n berchen ar y tir? Nodwyd bod yna giât arall i'r cae a bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn pa un yw'r fynedfa swyddogol i'r cae.
8.5	Mr William Jones, Pendref, Cefniwrch - Trafodwyd cwyn gan Mr Jones ynglŷn â nifer o ddamweiniau yn yr ardal dros y misoedd diwethaf. Mae'n gofyn i'r cyngor cymuned gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am arolwg yn yr ardal. Cytunwyd i wneud hynny
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Gors Bodeilio
	Llofnod…….Cadeirydd 25.09.18